
## Managing for Wildlife

The nutrient-poor and acidic wetland habitats at Cors Bodgynydd are dominated by purple moor grass, bog asphodel, bog myrtle, and bottle sedge. NWWT staff and volunteer groups manually clear conifers, birch, and willow regeneration and light Highland cattle grazing has been introduced to maintain the reserve's open and wet character. Left unchecked, the area would eventually succeed to wet woodland. These management techniques also favour marsh clubmoss, the rare fern ally, which is threatened by changing patterns of habitat management and pollution and occurs in only four locations in Wales.

## Rheoli Bywyd Gwyllt

Mae'r cynefinoedd o dir gwlyb asidig heb lawer o faethynnau yng Nghors Bodgynydd yn llawn glaswellt y gweunydd, llafn y bladur, helygen Mair a hesg gylfinfain. Mae staff a grwpiau gwirfoddol YNGC yn clirio'r coed conwydd a'r coed bedw a helyg sy'n adfywio, tra mae pori ysgafn gan wartheg yr Ucheldir wedi cael ei gyflwyno er mwyn cynnal cymeriad agored a gwlyb y warchodfa. Heb ofal, byddai'r ardal yn ildio yn y diwedd i goetir gwlyb. Hefyd mae'r technegau rheoli hyn yn ffafrio cnwpfwsogl y gors, rhedyn cyfun prin, sydd dan fygythiad oherwydd y patrymau sy'n newid mewn rheoli cynefinoedd a llygredd. Dim ond mewn pedwar lleoliad mae i'w ganfod yng Nghymru.

### We rely on volunteers to manage this reserve – can you help?



Matthew Roberts

### Rydyn ni'n dibynnu ar wirfoddolwyr i reoli'r warchodfa yma – fedrwch chi helpu?

**SPRING**
Nightjar
Cuckoo
Common cottongrass

**GWANWYN**
Troellwr
y Gog
Plu'r Gweunydd



Neil Aldridge

**SUMMER**
Kingfisher
Keeled skimmer
Bog asphodel

**HAF**
Picellwr cribog
Llafn y bladur
Glas y dorlan



Jon Hawkins

**AUTUMN**
Emperor dragonfly
Common sundew
Royal fern

**HYDREF**
Gwas y neidr yr Ymerawdwr
Chwys yr haul
Rhedyn brenhinol



AJC1 - Flickr

**WINTER**
Sphagnum mosses
Snipe
Woodcock

**GAEAF**
mwsoglau Sffagnwm
Gïach
Cyffylog



Chris Lawrence

This nature reserve is one of more than 30 owned or managed by North Wales Wildlife Trust. By working with other landowners, managers and communities we aim to restore, recreate and reconnect fragmented natural habitats to achieve a landscape where wildlife can flourish and people can lead happier and healthier lives.

We are an independent, local charity, reliant on the support of our members and other donations. **Please help us if you can.**

**You can help protect wildlife by ...**

- **becoming a member** for just a few pounds per month
- **volunteering** to help
- **considering a Living Legacy** – a gift in your Will, whether small or large, would leave your footprint in our landscape for ever

Mae'r warchodfa natur yn un o fwy na 30 o eiddo i neu a reolir gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Trwy weithio gyda thirfeddianwyr, rheolwyr a chymunedau ein nod yw adfer eraill, ail-greu a ail-gysylltu cynefinoedd naturiol tameidiog i gyflawni tirwedd lle gall bywyd gwyllt ffynnu a gall pobl fyw bywydau hapusach ac yn iachach.

Rydyn ni'n elusen annibynnol, leol sy'n dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion eraill. **Plîs helpwch ni os yw hynny'n bosib.**

**Gallwch chi helpu i warchod bywyd gwyllt drwy ...**

- **dod yn aelod** am ddim ond ychydig bunnoedd bob mis
- **gwirfoddoli** i helpu
- **ystyried gadael Rhodd Fyw** – byddai rhodd yn eich Ewyllys, boed fach neu fawr, yn gadael ôl eich troed ar ein tirwedd am byth

Join as a family member to receive our fun-filled *Wildlife Watch* or *Gwyllt!* magazines – and become part of the UK's leading environmental action club for kids!

Ymunwch fel aelod teulu i dderbyn ein cylchgronau difyr – *Wildlife Watch* neu *Gwyllt!* – ac i fod yn rhan o glwb mwyaf blaenllaw y DU sy'n cynnig cyfle i blant weithredu dros yr amgylchedd!

## Countryside Code

Please follow the Countryside Code and always remember to:

**Respect other people**
- Consider the local community and other people enjoying the outdoors
- Leave gates and property as you find them
- Keep to marked paths and trails

**Protect the natural environment**
- Leave no trace of your visit and take your litter home
- Keep dogs under effective control, and on leads during the bird nesting season (April – July)
- Never pick or uproot plants

**Enjoy the outdoors**
- Plan ahead and be prepared
- Follow advice and local signs

## Y Côd Cefn Gwlad

Cadwch at y Côd Cefn Gwlad bob amser a chofio'r canlynol:

**Parchu pobl eraill**
- Ystyriwch y gymuned leol a'r bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch bob giât ac eiddo fel rydych yn eu canfod nhw
- Cadwch at lwybrau a thraciau sydd wedi'u marcio

**Gwarchod yr amgylchedd naturiol**
- Peidiwch â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel adref gyda chi
- Cadwch gŵn dan reolaeth effeithiol, ac ar dennyn yn ystod tymor nythu'r adar (Ebrill – Gorffennaf)
- Peidiwch byth â chasglu nad adweiddio planhigion

**Mwynhau'r awyr agored**
- Cynllunio ymlaen llaw a bod yn barod
- Cadw at gyngor ac arwyddion lleol

## E-NEWS / E-NEWYDDION



*E-natur* is North Wales Wildlife Trust's free, monthly e-newsletter. Each copy contains three of four stories of interest to everyone who supports our work, plus details of our forthcoming events. Sign up today!

www.northwaleswildlifetrust.org.uk/e-natur

*E-natur* yw e-gylchlythyr misol rhad ac am ddim Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Mae pob copi yn cynnwys tair neu bedair stori o ddiddordeb i bawb sydd yn cefnogi ei'n gwaith, yn ogystal â manylion o ein digwyddiadau sydd i ddod. Cofrestrwch heddiw!

## LOCATION / LLEOLIAD




NorthWales WildlifeTrust

@North_Wales_WT

Heading W on the A5 from Betws-y-Coed, turn R onto the single-track road at Tŷ Hyll ('The Ugly House'). (Access is also possible leaving the B5106 SW of Llanrwst.) Take the first true L (i.e. not onto a forest track), signposted 'Llyn Geirionydd'. After approximately 0.6 miles, soon after some fenced-off mineshafts on the R, there is a small, easily missed parking area on the L with a field gate into the reserve (SH 766 597: OS Explorer Map OL17).

Wrth fynd tua'r gorllewin ar yr A5 o Fetws-y-Coed, trowch i'r dde ar ffordd un trac yn Nhŷ Hyll ('The Ugly House'). (Mae posib cael mynediad drwy adael y B5106 i'r de orllewin o Lanrwst hefyd). Dilynwch y chwith amlwg cyntaf (h.y. nid trac y fforest), gydag arwydd am 'Llyn Geirionydd'. Ar ôl tua 0.6 milltir, yn fuan ar ôl mynd heibio i dyllau mwynau sydd wedi'u ffensio ar y dde, mae lle parcio bychan, hawdd ei fethu, ar y chwith, gyda giât cae i mewn i'r warchodfa (SH 766 597: Map OS Explorer OL17).

**www.northwaleswildlifetrust.org.uk**

**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**
**North Wales Wildlife Trust**
Llys Garth, Garth Road, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351541
nwwt@wildlifetrustswales.org

*Charity number / Rhif elusen: 230772 Company number / Rhif cwmni: 773995*

# Gwarchodfa Natur
# Cors Bodgynydd
## Nature Reserve



Rob Booth

Mark Sheridan

Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future

Gwarchodfa Natur
# Cors Bodgynydd
Nature Reserve





## Welcome!

The wide variety of wetland habitats at this remote, upland nature reserve in the Gwydir Forest were created when water levels were raised artificially in the nineteenth century to supply water for the mining industry. Lead and zinc were first mined here in 1625, spoil heaps and mineshafts still being visible today from the only footpath crossing the site. The damming of Llyn Ty'n y Mynydd and Llyn Bodgynydd Bach has created areas of open water, mire, fen and bog littered with brightly coloured mats of sphagnum mosses. Many scarce species have been recorded here, including small chocolate tip moth, lesser horseshoe bats and the insect-eating plant, lesser bladderwort. Dry, rocky ridges covered in heather, bilberry and rowan criss-cross the reserve, and provide handy vantage points from which to view wildlife.

## Croeso!

Cafodd yr amrywiaeth eang o gynefinoedd tir gwlyb yn y warchodfa natur anghysbell hon yn ucheldir Coedwig Gwydir eu creu pan godwyd y lefelau dŵr yn artiffisial yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i gyflenwi dŵr i'r diwydiant mwyngloddio. Cloddiwyd am blwm a sinc yma am y tro cyntaf yn 1625, ac mae'r tomenni gwastraff a'r tyllau mwynau i'w gweld hyd heddiw o'r unig lwybr troed sy'n croesi'r safle. Codwyd argae ar Lyn Ty'n y Mynydd a Llyn Bodgynydd Bach ac mae hynny wedi creu ardaloedd o ddŵr agored, mign, corn a ffen sy'n frith o fatiau lliwgar a llachar o fwsoglau sffagnwm. Mae llawer o rywogaethau prin wedi cael eu cofnodi yma, gan gynnwys y gwyfyn blaen brown bach, ystlumod pedol lleiaf a phlanhigyn sy'n bwyta pryfed, chwysigenddail lleiaf. Mae cribau sych, creigiog wedi'u gorchuddio gan rug, llus a chriafol yn igam-ogamu ar draws y warchodfa ac yn cynnig mannau gwylio cyfleus ar gyfer dod o hyd i fywyd gwyllt.

**DID YOU KNOW?**
**The world-famous Gwydir Mawr (formerly 'Marin') mountain bike trail passes nearby. With 17 miles of awesome scenery and 450m of climbing, why not combine some serious exercise with a lunchstop at the nature reserve?**

**WYDDOCH CHI?**
**Mae llwybr beicio mynydd byd enwog Gwydir Mawr ('Marin' gynt) yn mynd heibio gerllaw. Gydag 17 milltir o olygfeydd trawiadol a 450m o ddringo, beth am gyfuno ymarfer dwys gyda stop am ginio yn y warchodfa natur?**



### KEY / CANLLAW

- Public footpath / Llwybr cyhoeddus
- Heathland / Rhostir
- Conifers / Conwydd
- Wetland / Gwlybdir
- Open water / Dŵr agored
- Spoil heap / Tomen sbwriel
- Parking / Parcio

N
W E
S

0m 100m

**Health and Safety**
Please keep to the footpath – leaving it risks exposure to hazards including open water, deep bog pools and mineshafts. Be aware that the site is unsuitable for wheelchairs and occasionally contains livestock. The remoteness of the site means that mobile phone coverage is very poor.

**Iechyd a Diogelwch**
Cadwch at y llwybr troed – mae ei adael yn arwain at risg o beryglon, gan gynnwys dŵr agored, pyllau corsiog dwfn a thyllau mwynau. Cofiwch nad yw'r safle'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn ac weithiau mae da byw yma. Mae'r ffaith bod y safle mor anghysbell yn golygu nad oes signal ffôn symudol da iawn yma.




Get up close and personal with some remarkable insectivorous wetland-specialist plants such as common sundew and butterwort. They supplement their meagre diet of nitrogen by trapping and consuming tiny invertebrates.

Cyfle i fod yn agos iawn at rai o blanhigion pryfysol nodedig y gwlybdir, fel chwys yr haul a thafod y gors. Maen nhw'n ategu eu deiet annigonol o nitrogen drwy ddal a bwyta infertebrata mân.



Vicky Nall

An impressive 16 species of dragonflies and damselflies have been recorded here; black-tailed skimmer being the most recent addition in 2013. Scarce blue-tailed damselflies are found at the small lake, one of only two known sites in Snowdonia.

Byddwch yn barod am wybed mân, yn enwedig ar ddyddiau cynnes, llonydd ddiwedd y gwanwyn ac yn ystod yr haf, pan maen nhw'n dod o'r corsydd wrth eu miloedd!



Can you find the Highland cattle cunningly camouflaged amongst the winter vegetation? This hardy breed help maintain this fragile habitat by grazing coarse grasses and controlling scrub.

Fedrwch chi ddod o hyd i wartheg yr Ucheldir yn cuddio'n slei yng nghanol llystyfiant y gaeaf? Mae'r brîd caled yma'n helpu i gynnal y cynefin bregus hwn drwy bori'r glaswelltau garw a rheoli'r prysgwydd.

Rob Booth

Be prepared for midges, especially on warm, still days in the late spring and summer when they emerge from the bog in huge numbers!

Mae casgliad nodedig o 16 o rywogaethau o weision y neidr a mursennod wedi'u cofnodi yma; a'r picellwr tinddu yw'r ychwanegiad diweddaraf yn 2013. Gwelir mursennod tinlas bach yn y llyn bychan, un o'r unig ddau safle ar eu cyfer yn Eryri hyd y gwyddom ni.

Dusk and dawn are the best times to visit if you want to hear, and occasionally see, nightjar and snipe. Cuckoo, seriously declining nationally, are regularly heard here.

Y gwyll a'r wawr yw'r amseroedd gorau i ymweld os ydych chi eisiau clywed, ac weithiau gweld, y troellwr a'r gïach. Mae'r gog, sy'n wynebu dirywiad difrifol yn genedlaethol, i'w chlywed yn rheolaidd yma.

**Where next?** Bryn Pydew and Rhiwledyn Nature Reserves (17-20 miles), near Llandudno, for stunning views, wildflowers and butterflies galore!

**Ble nesaf?** Gwarchodfeydd Natur Bryn Pydew a Rhiwledyn (17-20 milltir), ger Llandudno, am olygfeydd trawiadol, blodau gwyllt a glöynnod byw rif y gwlith!

Illustrations by Mike Langman

**Over 100 walks, talks and family events!**
**www.northwaleswildlifetrust.org.uk/whats-on**
**Mwy na 100 o deithiau cerdded, sgyrsiau a digwyddiadau i deuluoedd**

Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future